# Rhestr taliadau ar gyfer asedau newydd i drawsyrru nwy

**Fersiwn 2**



### 1. Taliad hawddfraint i berchennog y tir

O dan delerau'r Cytundeb i Ganiatáu Hawddfraint ac ar ôl derbyn Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, bydd opsiwn gan National Grid i gael mynd ar dir i adeiladu asedau newydd i drawsyrru nwy ac, ar ôl y gwaith adeiladu, i gwblhau'r Hawddfraint.

**Hawddfraint ar gyfer mynediad dros dir trydydd parti ar gyfer gwaith adeiladu a gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol:**

**£1000** am bob daliad.

**Am bob metr o'r biblinell:**

**80%** o'r gwerth y cytunwyd arno am y tir amaethyddol dros led yr hawddfraint (isafswm gwerth y tir £7500/hectar.)

**50%** o'r gwerth y cytunwyd arno am dir nad yw'n dir amaethyddol dros led yr hawddfraint.

**Rhandaliadau Taliadau Hawddfraint**

- **25%** i'w dalu pan gwblheir y Cytundeb i Ganiatáu Hawddfraint
- **50%** i'w dalu pan eir ar y tir i wneud gwaith adeiladu o dan y Cytundeb i Ganiatáu Hawddfraint
- **25%** i'w dalu pan gwblheir yr Hawddfraint ar ôl y gwaith adeiladu ynghyd ag unrhyw daliad arall y cytunwyd arno eisoes

### 2. Taliadau am arolygon a gwaith ymchwilio

Er ei fod bob amser yn ceisio cael cytundeb gwirfoddol, mae gan National Grid hawliau statudol i fynd ar dir i gynnal arolygon a gwneud gwaith ymchwilio.

Felly, nid taliadau am roi hawliau mynediad yw'r rhain, ond taliadau i gydnabod unrhyw ddifrod neu aflonyddwch y gallai'r arolygon a'r gwaith ymchwilio eu hachosi.



nationalgrid

Ni roddir taliad am yr asesiad cychwynnol pan fydd rhywun yn cerdded y tir i ganfod pa arolygon y gallai fod angen eu cynnal. Fodd bynnag, bydd National Grid yn gwneud y taliadau isod am gynnal yr arolygon eu hunain, cloddio tyllau turio ac ati:

**Arolygon:**

**£250** am bob daliad tir am **gyfnod o 12 mis.**

Am ymweliadau nos rhwng 9:00pm a 6:00am – **£250** am gyfnod o 12 mis.

**Tyllau turio:**

Taliad un-tro ar gyfer tyllau turio, sef **£250** am bob twll turio.

**Pyllau prawf:**

Taliad un-tro ar gyfer pyllau/tyllau prawf, sef **£250** am bob pwll prawf.

**Offer monitro dŵr:**

**£150** am bob medrydd am gyfnod o 12 mis i dalu am ymweliadau safle.

Os bydd unrhyw ddifrod gwerth mwy na'r ffigurau uchod, bydd angen cytuno fesul achos (gan gyflwyno tystiolaeth a phrawf o'r golled).

### 3. Hawliadau am golli cnydau, difrod ac aflonyddwch

Rhaid dangos prawf o faint y golled cyn y telir y rhain.

### 4. Caffael tir

Cytunir ar bob achos o gaffael tir (parhaol neu dros dro) yn unigol.

### 5. Ffioedd asiantau (a delir trwy berchennog/ meddiannwr y tir)

Ffi benodedig o **£150** am wasanaethau proffesiynol asiantaeth dir yn dychwelyd taflen ddata wedi'i llenwi a'i llofnodi ar gyfer pob daliad tir, yn datgan yr holl fuddiannau sy'n hysbys yn y tir.

Un ffi benodedig o **£250** am bob daliad tir ar gyfer arolygon a gwaith ymchwilio.

Caiff ffioedd asiantau am drafod Cytundeb i Ganiatáu Hawddfraint ac am iawndal ychwanegol (difrod neu 'effaith niweidiol') eu seilio ar ddogfen gyhoeddedig gyfredol National Grid, "Talu Ffioedd Syrfewyr".





nationalgrid

Os hoffech ragor o wybodaeth, ewch i wefan National Grid
**www.nationalgrid.com**